

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 No. 3359

Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad  
(Athrofa Brifysol Ewropeaidd) (Cymru) 2009

RHAN 4

CYMORTHARIANNOL

PENNOD 2

GRANTIAU ATODOL

**Lwfans myfyriwr anabl**

**18.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael lwfans myfyriwr anabl i helpu gyda'r gwariant ychwanegol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod rhaid i'r myfyriwr ei dynnu oherwydd anabledd sydd ganddo mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig.

(2) Nid yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael lwfans myfyriwr anabl os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

**Swm lwfans myfyriwr anabl**

**19.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), swm y lwfans myfyriwr anabl yw'r swm y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn briodol yn unol ag amgylchiadau'r myfyriwr i fod yn gymorth at un neu ragor o fathau o wariant cymwys.

(2) Rhaid i swm lwfans myfyriwr anabl beidio â bod yn fwy na £10,260 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd.

(3) Y “mathau o wariant cymwys” yw—

- (a) gwariant ar gynorthwyydd personol anfeddygol;
- (b) gwariant ar eitemau pwysig o offer arbenigol;
- (c) unrhyw wariant ychwanegol a dynnir—

- (i) yn yr Eidal er mwyn bod yn bresennol yn yr Athrofa; a
- (ii) yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi at ddibenion teithio i'r Athrofa er mwyn bod yn bresennol ar y cwrs perthnasol.

**Grant ar gyfer dibynyddion**

**20.**—(1) Mae'r grant ar gyfer dibynyddion yn cynnwys yr elfennau canlynol—

- (a) grant dibynyddion mewn oed; a
- (b) lwfans dysgu rhieni.

(2) Nodir amodau cymhwyso ar gyfer pob elfen a'r symiau sy'n daladwy yn rheoliadau 21 i 25.

### Grant dibynyddion mewn oed

**21.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael grant dibynyddion mewn oed mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r grant dibynyddion mewn oed ar gael mewn perthynas ag un dibynnydd myfyriwr cymwys sydd naill ai—

- (a) yn bartner y myfyriwr; neu
- (b) yn ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr a hwnnw'n ddibynnydd nad yw ei incwm net yn fwy na £3,801.

(3) Nid yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael y grant sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

**22.** Mae swm y grant dibynyddion mewn oed sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academiaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 24, a'r swm sylfaenol yw—

- (a) mewn cysylltiad â'r flwyddyn academiaidd gyfredol, £2,647; neu
- (b) pan fo'r person y mae'r myfyriwr yn gwneud cais mewn cysylltiad ag ef am grant dibynyddion mewn oed yn preswyllo fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, y swm nad yw'n fwy na £2,647 ac sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

### Lwfans dysgu rhieni

**23.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso, mewn cysylltiad â bod yn bresennol ar gwrs dynodedig, i gael y lwfans dysgu rhieni os oes ganddo un neu fwy o blant dibynnol.

(2) Nid yw myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael y grant sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn os paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 yw'r unig baragraff o Ran 2 o'r Atodlen honno y mae'r myfyriwr yn dod odano.

(3) Mae swm y lwfans dysgu rhieni sy'n daladwy mewn cysylltiad â blwyddyn academiaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliad 24, a'r swm sylfaenol yw £1,508.

### Cyfrifo

**24.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, y swm sy'n daladwy mewn cysylltiad ag elfen benodol o'r grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w gael o dan reoliadau 21 i 23 yw swm yr elfen honno sy'n weddill ar ôl cymhwyso, hyd nes y daw i ben neu hyd nes nad oes elfen yn dal yn daladwy o dan reoliadau 21 i 23, swm sy'n hafal i (A – B) fel a ganlyn ac yn y drefn ganlynol—

- (a) i ostwng swm sylfaenol y grant dibynyddion mewn oed os yw'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael yr elfen honno o dan reoliad 21; a
- (b) i ostwng swm sylfaenol y lwfans dysgu rhieni os yw'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael yr elfen honno o dan reoliad 23.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), os yw B yn fwy nag A neu'n hafal i A, mae swm sylfaenol pob elfen o'r grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w chael yn daladwy.

(3) Os yw (A – B) yn hafal i agregiad y symiau sylfaenol o elfennau'r grant ar gyfer dibynyddion y mae'r myfyriwr cymwys yn cymhwyso i'w cael neu'n fwy na'r agregiad hwnnw, y swm sy'n daladwy mewn cysylltiad â phob elfen yw dim.

(4) Mae swm y grant dibynnyddion mewn oed a gyfrifir o dan baragraff (1) yn cael ei ostwng o ran dibynnydd mewn oed gan un hanner—

(a) os yw partner y myfyriwr—

(i) yn fyfyriwr cymwys; neu

(ii) yn dal dyfarniad statudol; a

(b) os cymerir dibynnyddion y partner hwnnw i ystyriaeth wrth gyfrifo swm y cymorth y mae'r partner hwnnw yn cymhwyso i'w gael, neu'r taliad y mae ganddo hawlogaeth i'w gael, o dan y dyfarniad statudol.

(5) Os yw swm y lwfans dysgu rhieni a gyfrifir o dan baragraff (1) yn £0.01 neu fwy ond yn llai na £50, swm y lwfans dysgu rhieni sy'n daladwy yw £50.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn—

A yw agregiad incwm net pob un o ddibynnyddion y myfyriwr cymwys; a

B yw—

(a) £1,159 os nad oes gan y myfyriwr unrhyw blentyn dibynnydd;

(b) £3,473 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnydd;

(c) £4,632 os nad yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnydd;

(ch) £4,632 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo un plentyn dibynnydd;

(d) £5,797 os yw'r myfyriwr yn rhiant unigol a bod ganddo fwy nag un plentyn dibynnydd.

**25.** Caniateir didynnu yn unol â Rhan 5 o'r swm sy'n daladwy mewn cysylltiad ag elfen benodol yn y grant ar gyfer dibynnyddion a gyfrifir yn unol â rheoliadau 21 i 24.

## Dehongli

**26.**—(1) At ddibenion rheoliadau 21 i 25—

(a) ystyr “dibynnydd mewn oed” (“*adult dependant*”), mewn perthynas â myfyriwr cymwys, yw person mewn oed sy'n dibynnu ar y myfyriwr heblaw plentyn y myfyriwr, partner y myfyriwr (gan gynnwys priod neu bartner sifil y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y myfyriwr wedi gwahanu oddi wrtho) neu gyn-bartner y myfyriwr;

(b) mae “plentyn” (“*child*”) mewn perthynas â myfyriwr cymwys yn cynnwys unrhyw blentyn i bartner y myfyriwr sy'n ddibynnydd ar y myfyriwr ac unrhyw blentyn y mae gan y myfyriwr gyfrifoldeb rhiant drosto sy'n ddibynnydd arno;

(c) ystyr “dibynnydd” (“*dependant*”), mewn perthynas â myfyriwr cymwys, yw partner y myfyriwr, plentyn dibynnydd y myfyriwr neu ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr, nad yw ym mhob achos yn fyfyriwr cymwys ac nad oes ganddo ddyfarniad statudol;

(ch) ystyr “dibynnydd” (“*dependent*”) yw ariannol ddibynnydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf;

(d) ystyr “plentyn dibynnydd” (“*dependent child*”), mewn perthynas â myfyriwr cymwys yw plentyn sy'n ddibynnydd ar y myfyriwr;

(dd) ystyr “rhiant unigol” (“*lone parent*”) yw myfyriwr cymwys nad oes ganddo bartner ac sydd â phlentyn dibynnydd neu blant dibynnydd;

(e) mae i “incwm net” (“*net income*”) yr ystyr a roddir ym mharagraff (2);

(f) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (ff), (g), (ng) ac (h), ystyr “partner” (“*partner*”) yw unrhyw un o'r canlynol—

(i) priod myfyriwr;

(ii) partner sifil myfyriwr;

- (iii) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n briod i'r myfyriwr—
  - (aa) os oedd y myfyriwr hwnnw yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi; a
  - (bb) os dechreuodd y myfyriwr hwnnw y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000;
- (iv) person sydd fel arfer yn byw gyda myfyriwr fel pe bai'r person hwnnw'n bartner sifil i'r myfyriwr—
  - (aa) os oedd y myfyriwr hwnnw yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi; a
  - (bb) os dechreuodd y myfyriwr hwnnw y cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005;
- (ff) oni nodir fel arall, nid yw person a fyddai fel arall yn bartner o dan is-baragraff (f) i'w drin fel partner—
  - (v) os yw'r person hwnnw a'r myfyriwr, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi'u gwahanu; neu
  - (vi) os yw'r person yn byw fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n cael ei gynnal gan y myfyriwr;
- (g) at ddibenion diffinio “dibynnydd mewn oed” , mae person i'w drin fel partner pe bai'r person yn bartner o dan is-baragraff (f) oni bai am y ffaith nad oedd y myfyriwr y mae'r person yn byw gydag ef yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi;
- (ng) at ddibenion diffinio “plentyn” a “rhiant unigol” , mae person i'w drin fel partner pe bai'r person yn bartner o dan is-baragraff (f) oni bai am y dyddiad y dechreuodd y myfyriwr y cwrs dynodedig neu'r ffaith nad oedd y myfyriwr y mae'r person fel arfer yn byw gydag ef yn 25 oed neu drosodd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae cyfraniad y myfyriwr i fod i gael ei asesu mewn cysylltiad â hi;
- (h) yn ddarostyngedig i is-baragraff (i), at ddibenion diffinio “dibynnydd mewn oed” , caiff Gweinidogion Cymru drin oedolyn neu blentyn fel rhai sy'n ddibynol ar fyfyrwr cymwys os ydynt wedi'u bodloni o ran yr oedolyn neu'r plentyn—
  - (i) nad yw'n ddibynol ar—
    - (aa) y myfyriwr cymwys; neu
    - (bb) ei bartner; ond
  - (ii) ei fod yn ddibynol ar y myfyriwr cymwys a'i bartner gyda'i gilydd;
- (i) rhaid i Weinidogion Cymru beidio â thrin oedolyn (“A”) fel dibynnydd ar fyfyrwr cymwys yn unol ag is-baragraff (h), os Ayw—
  - (i) priod neu bartner sifil partner y myfyriwr cymwys (gan gynnwys priod neu bartner sifil y mae Gweinidogion Cymru yn barnu bod partner y myfyriwr cymwys wedi gwahanu oddi wrtho); neu
  - (ii) partner blaenorol partner y myfyriwr cymwys.
- (j) at ddibenion penderfynu a yw person yn bartner blaenorol i bartner myfyriwr cymwys, ystyr “partner” o ran partner myfyriwr cymwys yw—
  - (i) priod partner myfyriwr cymwys;

- (ii) partner sifil partner myfyriwr cymwys;
  - (iii) os dechreuodd y myfyriwr cymwys y cwrs dynodedig penodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2000, person sydd fel arfer yn byw gyda phartner myfyriwr cymwys fel pe bai yn briod iddo;
  - (iv) os dechreuodd y myfyriwr cymwys y cwrs dynodedig penodedig ar neu ar ôl 1 Medi 2005, person sydd fel arfer yn byw gyda phartner myfyriwr cymwys fel pe bai yn bartner sifil iddo.
- (2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), incwm net dibynnydd yw incwm y dibynnydd o bob ffynhonnell am y flwyddyn academaidd o dan sylw wedi'i ostwng yn ôl swm y dreth incwm a'r cyfraniadau nawdd cymdeithasol sy'n daladwy mewn cysylltiad â hi ond gan anwybyddu—
- (a) unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a delir oherwydd anabledd neu analluedd sydd gan y dibynnydd;
  - (b) budd-dal plant sy'n daladwy o dan Ran IX o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(1);
  - (c) unrhyw gymorth ariannol sy'n daladwy i'r dibynnydd gan awdurdod lleol yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adrannau 2, 3 a 4 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(2);
  - (ch) unrhyw lwfans gwarcheidwad y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan adran 77 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;
  - (d) yn achos dibynnydd y mae plentyn sy'n derbyn gofal awdurdod lleol wedi'i fyrddio gydag ef, unrhyw daliad a wneir i'r dibynnydd hwnnw at ddibenion adran 23 o Ddeddf Plant 1989(3);
  - (dd) unrhyw daliad a wnaed i'r dibynnydd o dan adran 23C(5A) o Ddeddf Plant 1989(4)
  - (e) unrhyw daliadau a wneir i'r dibynnydd o dan adran 15 o Ddeddf Plant 1989 ac Atodlen 1 iddi mewn cysylltiad â pherson nad yw'n blentyn i'r dibynnydd neu unrhyw gymorth a roddir gan awdurdod lleol yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf honno(5); ac
  - (f) unrhyw gredyd treth plant y mae gan y dibynnydd hawlogaeth i'w gael o dan Ran 1 o Ddeddf Credydau Treth 2002(6).
- (3) Os yw myfyriwr cymwys neu bartner y myfyriwr cymwys yn gwneud unrhyw daliadau ailgylchol a oedd gynt yn cael eu gwneud gan y myfyriwr yn unol â rhwymedigaeth a ysgwyddwyd cyn blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y myfyriwr, incwm net y partner yw'r incwm net wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2) ac wedi'i ostwng yn ôl—
- (a) swm sy'n hafal i'r taliadau o dan sylw am y flwyddyn academaidd, os cafodd y rhwymedigaeth, ym marn Gweinidogion Cymru, ei hysgwyddo'n rhesymol; neu
  - (b) y swm llai, os bydd unrhyw swm o gwbl, y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei fod yn briodol pe gallai rhwymedigaeth lai, yn eu barn hwy, fod wedi'i hysgwyddo'n rhesymol.
- (4) At ddibenion paragraff (2)—
- (a) os yw'r dibynnydd yn blentyn dibynnol; a
  - (b) os oes taliadau'n cael eu gwneud i'r myfyriwr tuag at gynhالياeth y plentyn;

(1) 1992 p. 4 y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) 2002 p. 38.

(3) 1989 p. 41. Diwygiwyd adran 23 gan Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 (p.41), Atodlen 16, paragraff 12, Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14), Atodlen 4, paragraff 14, Deddf Plant 2004 (p.31), adran 49(3) a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23), Atodlen 3, paragraffau 1 a 7.

(4) Mewnosodwyd is-adrannau (5A) i 5(C) o adran 23C o Ddeddf Plant 1989, o ran Lloegr, gan adran 21 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ac mae O.S. 2009/268 ac O.S. 2009/2273 yn berthnasol.

(5) Mae diwygiadau i adrannau 15 a 24 ac Atodlen 1 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(6) 2002 p.21 y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

---

**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

---

mae'r taliadau hynny i gael eu trin fel incwm i'r plentyn.